BAXTER, WILLIAM (1650 - 1723), hynafiaethydd

Enw: William Baxter
Dyddiad geni: 1650
Dyddiad marw: 1723
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: hynafiaethydd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Idris Llewelyn Foster

Ganed yn Llanllugan, Sir Drefaldwyn, mab i frawd Richard Baxter y diwinydd. Addysgwyd ef yn Harrow. Dywed ei fod yn Gymro uniaith pan aeth i'r ysgol, ond daeth yn hyddysg mewn ieithoedd eraill - Gwyddeleg, Groeg, a Lladin, yr ieithoedd Almaenaidd, a rhai o'r ieithoedd dwyreiniol. Bu'n cadw ysgol yn Tottenham High Cross, Middlesex, ac wedyn yn bennaeth Ysgol y Sidanwyr (Mercers' School).

Yn 1679 cyhoeddodd ramadeg Lladin elfennol, *De Analogia sive arte Linguae Latinae Commentariolus, in usum provectioris adolescentiae*. Ymddangosodd ei *Anacreon* yn 1695 (ailargraffiad, 1710), a daeth ei enw'n hysbys yn Lloegr ac ar y Cyfandir. Golygodd waith Horas yn 1701 (argraffiadau eraill 1725, 1798), a bu'r testun hwn yn sylfaen i argraffiad J. M. Gesner yn 1752. Cyhoeddwyd ei eiriadur hynafiaethol, *Glossarium Antiquitatum Britanniearum*, yn 1719. Bu'n gweithio hefyd ar eiriadur o hynafiaethau Rhufeinig; golygwyd y gwaith anghyflawn hwn gan Moses Williams ar ôl marwolaeth Baxter, a chyhoeddwyd ef yn 1726 dan y teitl *Reliquiae Baxterianae sive W. Baxteri opera posthuma* (ail argraffiad, 1731, fel *Glossarium Antiquitatum Romanarum*). Ysgrifennodd erthyglau i *Archaeologia* a *Philosophical Transactions*, ac ymhlith ei weithiau anghyhoeddedig y mae ei astudiaeth o Juvenal.

Yr oedd mewn cysylltiad agos â hynafiaethwyr ac ieithegwyr ei gyfnod, a byddai'n gohebu ag Edward Lhuyd. Barn Lhuyd amdano ydoedd 'a person of learning and integrity, tho, I fear me, too apt to indulge fancy.' Bu farw 31 Mai 1723; yr oedd ganddo ddau fab a thair merch.

Awdur

Yr Athro Idris Llewelyn Foster, (1911 - 1984)

Ffynonellau

Reliquiae Baxterianae, or Mr. Richard Baxter's narrative of the most memorable passages of his life and times (1696)

Nichol, *Literary Anecdotes of the Eighteenth Century* (1812–5), i, 163

Archaeologia Cambrensis, i

The Monthly Review, n.s., xxv

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

John Davies, *Bywyd a Gwaith Moses Williams, (1685-1742)* (1937), 99-101

R. T. Gunther, *Early Science in Oxford*, 1945

Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (1852)

Oxford Dictionary of National Biography

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 5266955

Wikidata: Q8005220

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu